# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 3

ADEILADAU O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

## PENNOD 5

CAFFAEL A DIOGELU ADEILADAU O DDIDDORDEB ARBENNIG

*Cyllid ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau o ddiddordeb arbennig etc.*

PROSPECTIVE

### 150 Grant gan Weinidogion Cymru ar gyfer atgyweirio neu gynnal a chadw adeilad, gardd etc.

(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi grantiau i dalu unrhyw wariant yr aed iddo, neu yr eir iddo, wrth—

(a) atgyweirio neu gynnal a chadw adeilad y maent yn ystyried ei fod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig,

(b) cynnal a chadw unrhyw dir sy'n cynnwys adeilad o'r fath, yn cydffinio ag ef neu'n gyfagos iddo,

(c) atgyweirio neu gynnal a chadw unrhyw wrthrychau a gedwir fel arfer mewn adeilad o'r fath, neu

(d) cynnal a chadw gardd neu dir arall y maent yn ystyried ei bod neu ei fod o ddiddordeb hanesyddol arbennig.

(2) Mae'r darpariaethau a ganlyn yn yr adran hon yn gymwys—

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 150 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 21 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(a) pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi grant o dan is-adran (1) ar delerau sy'n darparu y gellir ei adennill o dan yr adran hon, a

(b) pan fo Gweinidogion Cymru, cyn neu wrth roi'r grant, yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i dderbynnydd y grant sydd—

(i) yn crynhoi effaith yr adran hon, a

(ii) yn pennu cyfnod, sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir y grant ac sy'n dod i ben heb fod yn fwy na 10 mlynedd ar ôl y diwrnod hwnnw, y caniateir adennill y grant ynddo yn unol ag is-adrannau (4) i (6) ("y cyfnod adennill").

(3) Os na chydymffurfir ag unrhyw un neu ragor o amodau a osodir wrth roi'r grant, caiff Gweinidogion Cymru adennill swm y grant, neu unrhyw ran o'r swm hwnnw, oddi wrth dderbynnydd y grant.

(4) Mae is-adrannau (5) a (6) yn gymwys os, yn ystod y cyfnod adennill—

(a) caiff y cyfan neu ran o'r buddiant yr oedd derbynnydd y grant yn ei ddal, ar y diwrnod y rhoddwyd y grant, yn yr adeilad, y tir neu'r gwrthrychau ("y buddiant perthnasol") y mae'r grant yn ymwneud ag ef neu â hwy ei waredu neu ei gwaredu, a

(b) gwneir y gwarediad drwy werthu, drwy gyfnewid neu drwy les am gyfnod o 21 o flynyddoedd o leiaf.

(5) Os gwneir y gwarediad gan dderbynnydd y grant neu gan berson y mae derbynnydd y grant wedi rhoi rhan o'r buddiant perthnasol iddo, caiff Gweinidogion Cymru adennill swm y grant, neu unrhyw ran o'r swm hwnnw, oddi wrth dderbynnydd y grant.

(6) Os gwneir y gwarediad gan berson y mae derbynnydd y grant wedi rhoi'r cyfan o'r buddiant perthnasol iddo, caiff Gweinidogion Cymru adennill swm y grant, neu unrhyw ran o'r swm hwnnw, oddi wrth y person y rhoddwyd y rhodd iddo.

(7) Ni chaiff Gweinidogion Cymru adennill symiau o dan yr adran hon sydd, gyda'i gilydd, yn fwy na swm y grant.

(8) Yn yr adran hon mae cyfeiriadau at roi buddiant i berson yn gyfeiriadau at ei roi i'r person yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac eithrio ar farwolaeth deiliad y buddiant.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 150 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 150 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 21 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 11(3) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(2)
- s. 58(4)(c) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(3)
- s. 88(4) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(4)
- s. 118(2)(f) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(5)
- s. 161(6) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(6)